

Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad cyfarfod mis Medi

Croesawyd Eleri Morgan i'r cyfarfod, a chafwyd gwybodaeth ganddi am newid yn ei chyfrifoldebau a'i bod bellach yn aelod o Tîm Troseddau Cefn Gwlad Ceredigion. Cadarnhawyd ganddi y byddai'n dal i weithio yn yr ardal ond yn delio yn bennaf gyda ffermwyr a throseddau gwledig. Cafwyd cadarnhad ganddi, yn ogystal, fod sawl lladrad wedi bod yn yr ardal yn ddiweddar a'i bod yn werth atgoffa'r gymuned unwaith eto am bwysigrwydd cloi ei siedau a chadw llygaid barcud am unrhyw ymddygiad amheus yn yr ardal. Dymunwyd pob dymuniad da i Eleri gan y Cynghorwyr ar ei phenodi i swydd newydd.

Dymunwyd yn dd ai Eleri a chroesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Roedd y Clerc wedi rhoi hysbyseb yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd angen atgyweiro sedd y ford bicnic; byddai Eric yn ei adnewyddu.

Penderfynwyd y byddai'r toiledau yn aros ar y cae chwarae tan 31 Hydref 2021.

TINOPOLIS

Roedd cwmni Tinopolis wedi cysylltu â'r Clerc am ganiatâd i ffilmio'r "Welsh Whisperer" ar y cae chwarae, ar y cyd â CFFI Llanllwni.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr yn esbonio'r sefyllfa am y wefan ac yn awgrymu bod angen ei hadnewyddu. Penderfynwyd yn unfrydol i ddiweddarau'r wefan. Byddai'r Clerc yn cysylltu â chynllunydd gwefannau erbyn y cyfarfod nesaf.

DIFFIBRILYDDION

Cadarnhawyd bod y diffibrilydd wedi ei osod yn ei le ar wal Capel Nonni.

Penderfynwyd yn unfrydol bod y Clerc yn gwneud ymholiadau am dyddiadau cyfleus i drefnu'r hyfforddiant yng Nghapel Nonni.

Roedd cwmni T.L. Thomas yn fodlon i'r Cyngor Bro osod diffibrilydd newydd ar y wal, petai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb amdano.

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

HYFFORDDIANT CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED
Cadarnhawyd bod y Clerc wedi bod ar hyfforddiant yn ystod mis Gorffennaf.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad mai Meinir Evans fydd yn cynrychioli
Cyngor Bro Llanllwni ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llanllwni.

SWYDDEFA ARCHWILIO CYMRU: CYFRIFON

Cadarnhawyd gan y Clerc bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

NEUADD GYMUNEDOL EGLWYS LLANLLWNI

Cadarnhawyd bod cyfarfod wedi ei gynnal i ail-sefydlu Pwyllgor y Neuadd.

CYSGODFANNAU BYSIAU

Roedd angen glanhau'r cysgodfannau ond nid oedd y gwaith wedi ei gwblhau.

GOLEUADAU STRYD

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod goleuadau stryd newydd yn mynd i
gael ei gosod yn y pentref, ond nid oedd unrhyw ddyddiad wedi ei benderfynu
eto.

GOLEUADAU SOLAR

Roedd wedi dod i sylw'r Cyngorwyr nad oedd amryw o'r goleuadau solar yn
gweithio. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y
plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 8 Tachwedd 2021
am 7.30yh.